

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Marian Evans (Saron) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Clwyd Evans. Cyflwynwn y teulu i gyd i ofal yr Arglwydd a gweddiwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt.
- Cofiw'n yn annwyl hefyd am John Llewelyn Jones (Llansannan) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd ond yn gobeithio cael dod adref yn y dyddiau nesaf. Yno am ychydig ddyddiau hefyd y bu Rhoswen Williams ac Eilir Taylor (Llansannan) yn dilyn cael llawdriniaeth. Anfonwn ein cofion at y tri ohonynt, gan weddio y byddant yn cryfhau bob dydd ac yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Mae eraill o'r Fro sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Cyflwynwn hywthau hefyd i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod Ei agosrwydd.

I ddod

- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yn Eglwys Unedig Seion/Bryneglwys, Corwen dydd Mercher, Mai 10fed gyda Bethan Davies, Port Talbot yn annerch am 2.00 ac Arfon Jones, Caerdydd am 5.30.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Llanefydd dydd Wener, Mai 12fed. Pwyllgor Gwaith am 3.00, Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith cwrs plant ac oedolion yr Ysgol Sul.
- **CIC** – Bydd criw CIC yn mynd i Fowlio 10 i Ganolfan Jade Jones, Y Fflint nos Wener, Mai 19eg ac yn cychwyn o Lansannan am 6.30. I sicrhau lle, rhwch eich enw a'r ffurflen ganiatâd i Gwion **erbyn dydd Sul, Mai 14eg**, os gwelwch yn dda. Bydd ffurflenni ar gael yn CIC nos Wener nesaf.
- **PERTHASEDD PANTYCELYN** yn Neuadd Goffa Rhys Pritchard, Llanybydder dydd Sadwrn, Mai 20fed o 10.00-4.00. Holwch Mair os am gopi o raglen y dydd.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) yn Saron, dydd Sul, Mai 21ain am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Elsbeth Jones, Gellifor.
- **“LLWYBR MARI A’N LLWYBR NI”** – Mae Adran Is-bwyllgor y Chwiorydd EBC a Byd Mary Jones yn cydweithio i drefnu encil ar gyfer grwpiau o ferched. Bydd y diwrnod yn cynnwys cyfle i edrych ar agweddau gwahanol o fywyd a ffydd Mari, cyfle i wrando ar dystiolaethau gan bobl sy'n trysori Gair Duw heddiw, ac ymweliad â'r Ganolfan. Cynigir yr encil yn ystod y prynhawn ar un o'r dyddiau canlynol: *dydd Mercher, Mai 24ain; dydd Mawrth, Mehefin 27ain; neu dydd Mawrth, Gorffennaf 18fed*. Y pris yw £11 yr un yn cynnwys cinio a phaned yn y prynhawn. Mae lle i 30 ar gyfer pob sesiwn a fydd yn dechrau 11.45 tan 4.00. I archebu lle, cysylltwch â Nerys Siddall ar 01678 521877 neu ar ebost: nerys.siddall@biblesociety.org.uk



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 30^{ain} Ebrill 2017

Darlleniad y Dydd
1 Brenhinoedd 3:10-14
(BCND tud.312 / BCN tud.285)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i wasanaethau'r Fro. Gweddiwn y bydd Duw yn siarad gyda ni heddiw ac yn ein cymell i mewn i berthynas agosach gydag Ef. Cyflwynwn hefyd ein cyd-Gristnogion yn y Fro a thros y byd sy'n mynd trwy amseroedd caled yn eu bywydau. Gweddiwn y byddant yn troi at Dduw, yr un sy'n falm i bob briw.

Ysgwn i ydym ni'n meddwl am Dduw fel ein Duw ni? Yn aml, rydym yn ystyried ein hunain fel pobl sydd wedi'n dewis ganddo, ac yn bobl iddo Ef, ond ydym ni'n meddwl amdano fel ein Duw NI? Wrth ddarllen Salm 67 fe ddown at y cymal yma yn adnod 6: "O Dduw, ein Duw ni".

Mae'n siŵr mae un o'n beiau mwyaf ni fel Cristnogion ydy gwneud yn fach o waith a phŵer Duw heddiw yn ein bywydau. Pa mor aml ydym ni'n rhoi Duw mewn bocs capel – dim ond yn ei ystyried ar fore, prynhawn neu nos Sul? Ar ôl gwneud proffes fod Duw wedi'n hachub ni yn gyfan gwbl o afael pechod a'n bod ni'n dod yn Gristnogion, mae mor hawdd i ni wthio Duw i ymylon ein bywydau. Os ydych chi unrhywbeth fel fi, mae'n debyg eich bod wedi meddwl rhywdro "Na i ddim gweddio am hyn, mae'n broblem rhy fach i Dduw" neu "Dydw ddim ond am weddio am y pethau sydd wir yn bwysig, wedyn bydd Duw yn siŵr o wrando".

Ar y groes, fe brynnodd Duw ni gyda gwaed gwerthfawr ei unig Fab, Iesu Grist, er mwyn i ni gael rhannu yn nhrysorau di-ddiwedd y Nefoedd. Ydych chi erioed wedi bod mewn bwyty ble mae nhw'n gwerthu diodydd gyda 'unlimited refills'? Dyna ddyfais wych! Talu unwaith a chewch lemonêd am weddill y pryd bwyd heb orfod talu mwy! Anhygoel! Mi fuasai'n ffolineb llwyr i beidio cymryd mantais o'r cyfle tra ei fod yno, ond am ryw reswm, dyna rydym ni'n ei wneud gyda rhoddion Duw. Ar ôl yfed o'r dŵr bywiol, am ryw reswm, rydym ni'n mynd i ddogni'r hyn sydd gennym yn hytrach na mynd at y ffynnon yn ddyddiol i dorri ein syched.

Mae Duw yn Dduw i ni. Rydym ni mor werthfawr iddo fo, felly pam nad ydy o mor werthfawr i ni? Mae'n gallu cyflenwi pob angen fydd arnom ni byth. Dewch i ni felly fynd ato am bob angen. Dewch i ni weddio arno am bob peth. Dewch i ni yn ein gwendid fynd ato yn ei nerth, yn ein llawenydd fynd ato yn ei hyfrydwch, ac yn ein diflastod fynd ato yn ei gyffro. Pwy bynnag ydym ni, beth bynnag ydy ein sefyllfa, dewch i ni gofio fod Duw yn union beth rydym ei angen, yn union lle rydym ni ei angen, ac yn gallu gwneud mwy na allwn ddychmygu sy'n bosib.

DILYNWCH NI: [@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled) 

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 30^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn Groes. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 2^{il} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 4^{ydd} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener – 5^{ed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 6^{ed} ➤ **Ysgol Sadwrn DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ am 10.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 3^{ydd} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Ebrill 30ain**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Bydd gwasanaeth ar y thema Apêl Corwynt Cariad yn Festri Llansannan am 10.00 pryd y bydd Cheryl Williams yn rhoi cyflwyniad ac yn dangos ffrwyth gwaith Cymorth Cristnogol yn Ynysoedd y Philipinas. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 30^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 7^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Hebreaid 12:1-3 (BCND tud.249 / BCN tud.228)